# PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 6 MEHEFIN 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Parkhill, Robson, Sattar a/ac Stubbs |

## 1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAETH Y PWYLLGOR

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019, penododd y Cyngor y Cynghorydd Nigel Howells yn Gadeirydd a'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor hwn:

Y Cynghorwyr Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Abdul Sattar, Simmons, a Stubbs

## 2 : CYLCH GORCHWYL

Craffu, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes adfywio economaidd.

- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Mewnfuddsoddiad a marchnata Caerdydd
- Strategaeth Economaidd a Chyflogaeth
- Cyllid Ewropeaidd a Buddsoddiad
- Cymorth i Fentrau Bychan i Ganolig
- Awdurdod Harbwr Caerdydd
- Dysgu Gydol Oes
- Canolfannau Hamdden
- Datblygu Chwaraeon
- Parciau a Mannau Gwyrdd
- Llyfrgelloedd, y Celfyddydau a Diwylliant
- Adeiladau Dinesig
- Digwyddiadau a Thwristiaeth
- Projectau Strategol
- Arloesedd a Chanolfannau Technoleg
- Hyfforddiant Lleol a Menter

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus dan Nawdd Llywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

## 3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorydd Gavin Hill-John.

## 4 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

## 5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9$^{fed}$ Mai 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 6 : CHWARAEON CAERDYDD

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn adeiladu ar y craffu blaenorol ar y Fenter ar y Cyd â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddarparu gwasanaethau chwaraeon, gan gynnwys y Cynllun Chwaraeon Lleol 2018/19. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Aelodau glywed am rai o'r ffactorau sy'n effeithio ar y dirwedd ar gyfer chwaraeon yng Nghaerdydd ac i glywed am y gwaith cychwynnol i archwilio'r ffordd orau o ymateb i'r newidiadau hyn.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury, Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, Jon Maidment, Rheolwr Gweithredol Parciau, Hamdden a Chwaraeon, Laura Williams, Pennaeth Chwaraeon Caerdydd, Ben O'Connell, Cyfarwyddwr Chwaraeon, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Tom Overton, Chwaraeon Cymru.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet wneud datganiad lle dywedodd fod partneriaeth dda yn bodoli o ran darparu'r rhaglen chwaraeon cymunedol er gwaethaf pryderon ar y cychwyn bod angen y dull hwn oherwydd pwysau ariannol. Roedd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd fel partner yn darparu ar lawr gwlad i gymunedau, roedd y niferoedd a oedd yn cymryd rhan yn dda, ac roedd straeon da i'w hadrodd ar gyfer pob oedran a phob ardal anodd ei chyrraedd.  Ychwanegodd os yw pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn ifanc mae'r ddisgyblaeth yn helpu o ran cyflogaeth a hyfforddiant yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Cyfeiriodd yr Aelodau at y 47% o'r disgyblion a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon fwy na 3 gwaith yr wythnos, gan ofyn a oedd hyn yn 47% o'r holl ddisgyblion yng Nghaerdydd neu 47% o'r ymatebion.  Eglurwyd mai 47% o'r ymatebion ydoedd.  Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gweld niferoedd yr ymatebion i'r arolwg.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn debygol o fod yn frwd a chymryd rhan mewn mwy o chwaraeon beth bynnag.  Roedd swyddogion yn cytuno ei bod yn bwysig rhoi pwyslais ar ysgolion ar bwysigrwydd cwblhau'r arolwg yn ehangach, ond mae yna ffactorau gwahanol o ran pam nad yw rhai yn ei gwblhau; mae rhai yn ei gwblhau ond nid yn llawn, a'r 22 ysgol a ymatebodd yn llawn yw'r rhai sy'n ymgysylltu'n rheolaidd. Ymatebodd 9 mil o ddisgyblion yng Nghaerdydd, sef tua 40% o blant oedran ysgol yng Nghaerdydd.  Ychwanegwyd ei fod yn arolwg lefel poblogaeth a bod yr ystadegau yn sylweddol, yng Nghaerdydd cynhyrchir y ffigwr gan nifer y disgyblion sydd wedi ei gwblhau; Chwaraeon Cymru sy'n cynhyrchu'r data.  Yr her yw nad yw 30% o bobl ifanc o oedran ysgol yn gwneud unrhyw

chwaraeon, gan ddibynnu ar ble maent yn byw, cefndir ac ati, felly mae hyn yn her i bawb, gan gynnwys siarad â'r gwasanaeth ysgolion i gymell ysgolion.

Nododd yr Aelodau'r gwahaniaeth o 4% rhwng bechgyn a merched a gofynnwyd a oedd hyn yn arwyddocaol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwahaniaeth wedi gostwng gan 3% oherwydd y bu swyddog i ganolbwyntio'n benodol ar weithgareddau menywod a merched; roedd y gwahaniaeth yn amrywio rhwng ysgolion ac ychydig iawn o wahaniaeth oedd gan rai ysgolion.

Nododd yr Aelodau lwyddiant y cynllun peilot yn Ysgol Gynradd Trelái ac ymgysylltu â'r teulu a gofynnwyd a fyddai hyn yn cael ei gyflwyno'n ehangach. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r bwriad oedd cyflwyno hyn yn ehangach, y byddai'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r teulu ac y byddai partneriaeth â Street Games ar ymgysylltu â theuluoedd hefyd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod yn bwysig iawn bod rhieni yn ymgysylltu â'r plant a'r ysgol, gallai hyn fod yn her mewn ardaloedd difreintiedig ac roedd bwlch amlwg rhwng Gogledd a De'r ddinas, felly roedd Chwaraeon Caerdydd yn cefnogi'r mater o ran cyfarpar, offer ac ati ar gyfer yr Arc Ddeheuol.

Roedd yr aelodau o'r farn bod yr ystadegau'n dda a nodwyd bod rhai cyfleusterau cymunedol yn cael llwyddiant mawr o ran ennyn diddordeb plant mewn chwaraeon, fel clwb rygbi St Albans sydd wedi gweld cynnydd a chyfranogiad, ac nid yw'n codi tâl ar blant i chwarae rygbi. Ychwanegodd yr Aelodau fod cyfleusterau o'r fath yn ei chael yn anodd cael gafael ar gyllid grant a gofynnodd a yw'r math hwn o beth yn cael ei fapio. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Gist Gymunedol ar gael o hyd a bod grwpiau cymorth grant yn cael eu cynnal yn rheolaidd, y gellid rhannu dyddiadau'r rhain gydag Aelodau. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn edrych ar astudiaethau achos, pa wahaniaeth y mae'r Gist Gymunedol yn ei wneud ac ati. Mae pwysigrwydd cyfleusterau cymunedol yn cael ei werthfawrogi ac ystyriwyd y dylid darparu cymorth cofleidiol ar eu cyfer. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i wirfoddolwyr llawr gwlad sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ledled Caerdydd.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar yr heriau a wynebwyd a syniadau cychwynnol am yr egwyddorion i'w defnyddio i ail-strwythuro Chwaraeon Caerdydd yn sgil newidiadau i gyllid. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod partneriaethau yng Nghaerdydd wedi'u datblygu'n dda a bod cyfle i adeiladu ar y rhain a'u helaethu. Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd yr Aelodau'r egwyddor o ganolbwyntio'r adnoddau yn Arc Ddeheuol y ddinas a holwyd am y pocedi eraill o amddifadedd ar draws y ddinas. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'n bosibl ymateb i'r meysydd hyn o hyd, yn enwedig gan y byddent bellach yn gweithio fel un tîm ar draws y ddinas yn hytrach na thimau ym mhob ardal.

Gofynnodd yr Aelodau pa fesurau sydd ar waith i weld beth sydd ddim yn gweithio'n dda a chawsant eu cynghori bod y broses yn cael ei mesur; maent yn gwerthuso proses y project o'r dechrau, yr holl ffordd drwy ei farchnata, drwy'r bloc 6/10 yr wythnos ac yna'n edrych ar yr adborth a dderbynnir ar y diwedd, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth symud ymlaen.

Nododd yr Aelodau nifer o fanteision, iechyd ac eraill, o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a gofynasant sut y gellid annog pobl â llai o fynediad i chwarae yn y gweithgareddau am ddim fel Parkrun. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid i ddod â'r partneriaid a'r

cymunedau at ei gilydd i gael mynediad, cynaliadwyedd ac arian ac adnoddau i sefydlu gweithgareddau.

Roedd yr Aelodau'n pryderu bod llawer o weithgareddau yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr ac yn gofyn pa gymorth a oedd ar gael i uwchsgilio pobl i gymryd rhan a helpu fel gwirfoddolwyr yn enwedig yn nwyrain y ddinas. Hysbyswyd yr Aelodau bod yr angen am wirfoddolwyr a hyfforddiant yn cael ei gydnabod a bod datblygiadau newydd yn cael eu hystyried. Roedd angen ymgysylltu â ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a thrwy ymgysylltu â'r teulu a darparu cyfleoedd rhagflas. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid yn allweddol a bod yna hefyd ymddiriedolaethau elusennol, gwybodaeth am gyfleoedd grant, a chymorth gan gymunedau megis defnyddio neuaddau ayb.

Cydnabuwyd cerdded fel math o chwaraeon a chafwyd trafodaeth am eiriolaeth hyn yn ogystal â'i gysylltu ag ysgolion ac ysgolion sy'n teithio.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad y byddai'r egwyddorion arweiniol yn cael eu defnyddio wrth ddyrannu cyllid drwy'r Gist Gymunedol. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn gywir na ddaw'r cynllun i law tan fis Medi/Hydref ond bod trafodaeth y Gist Gymunedol yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod angen mwy o adnoddau i gadarnhau'r berthynas rhwng chwaraeon ac iechyd. Cafodd yr Aelodau wybod am y Gronfa Iach a Gweithredol a chydweithio â phartneriaid ar gynlluniau ar gyfer rhai dros 50 oed. Nodwyd bod mwy o waith i'w wneud ac y gallai Meddygon Teulu wneud mwy o gyfeirio hefyd ond mai'r dull gweithredu, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fyddai'r ffocws.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 7 : CYNLLUN CYFLAWNI'R GYFARWYDDIAETH DATBLYGU ECONOMAIDD A PHERFFORMIAD CHWARTER 4/DIWEDD Y FLWYDDYN

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i archwilio sut y mae'r Gyfarwyddiaeth yn helpu i gyflawni blaenoriaethau allweddol ac amcanion lles y Cyngor, y prif heriau sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth, a yw'r Cynllun Cyflawni yn addas i'r diben, a threfniadau ar gyfer monitro gweithrediad. Roedd hefyd yn galluogi Aelodau i edrych ar berfformiad Chwarter 4, gan fod y canlyniadau wedi'u cynnwys yn y cynllun.

Atgoffwyd Aelodau eu bod yn gyfrifol am graffu ar holl feysydd y Gyfarwyddiaeth hon ar wahân i: Tîm Rheoli Asedau Strategol, Gwasanaethau Eiddo a Phrojectau Cyfalaf, sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury, Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, Jon Maidment, Rheolwr Gweithredol Parciau, Hamdden a Chwaraeon, a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Nododd yr Aelodau fod Stori Caerdydd wedi'i rhestru fel lleoliad masnachol a gofynnodd am eglurhad ar hyn. Dywedodd swyddogion nad lleoliad masnachol ydyw, ond gan ei fod yn dod o dan Leoliadau/Diwylliant mae'n disgyn yn yr un categori - ystyriwyd y dylid ailenwi'r categori hwn yn Adeilad y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yn llywio'r Cynlluniau Chwarter y Camlesi a dywedwyd wrthynt ei fod yn cael ei lywio gan y penderfyniad i leoli'r arena dan do yn y Bae a oedd yn cynnig cyfle adfywio sylweddol yn yr ardal lle mae'r Motorpoint Arena ar hyn o bryd. Mae'r Camlesi wedi'u cuddio o dan y palmentydd yn Ffordd Churchill, ac mae'r cynlluniau wedi cymryd mwy o arwyddocâd ers y drafodaeth ynghylch Cilgant Guildford.

Nododd yr Aelodau fod targedau arbedion yn uchelgeisiol a gofynnwyd pa mor hyderus oedd y swyddogion y gellid eu cyflawni a pha effaith y byddai hyn yn ei chael ar y Gyfarwyddiaeth. Dywedodd swyddogion fod y ffigyrau'n cynnwys lefel uchel o arbediad o'r contract â GLL o ran y canolfannau hamdden. Yr her fwyaf fyddai'r datrysiad y New Theatre, ond roedd cynlluniau'n mynd yn dda ac roedd swyddogion yn hyderus y byddent yn cael datrysiad i gadw a chynnal y theatr.

Gwnaeth Aelodau gais mewn perthynas â'r Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd pan fydd adroddiadau'n cael eu paratoi, bod hyn yn cael ei ystyried.

Nododd yr Aelodau fod cael pobl i aros yn hwy pan fyddant yn ymweld yn allweddol a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i annog hyn. Nododd yr Aelodau fod yr ymchwiliad i'r digwyddiadau wedi canfod nad yw Caerdydd yn cael ei marchnata cystal ag y gallai fod, ac mai ychydig iawn o sôn a gafwyd am farchnata yn y cynllun cyflawni. Dywedodd swyddogion fod anghysondeb diddorol gyda Bryste sy'n cael unigolyn yn aros mwy nag 1 diwrnod yn hirach na Chaerdydd. Roedd angorion allweddol i ddenu ymwelwyr fel yr arena, roedd seilwaith yn bwysig hefyd. Byddai ICC Casnewydd yn cynnig cyfleoedd da i Gaerdydd a'i gwestai. Roedd siopa yn atyniad allweddol i Gaerdydd, ond roedd cyllidebau marchnata yn gyfyngedig iawn, gwnaed y defnydd gorau o gyfryngau cymdeithasol, y wasg a gwefannau.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru. Dywedodd swyddogion eu bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau trafnidiaeth mewn rhai cynlluniau fel cysylltu'r Bae a Chanol y Ddinas, rheoli traffig ar Ddigwyddiadau Mawr ar gyfer Parcio a Theithio. Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru wedi nodi safle ar gyfer parcio a theithio ar hyd y A470.

Nododd yr Aelodau gyfartaledd nifer yr ymwelwyr fel 1.7 diwrnod a gofynnwyd a oedd dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer hyn. Dywedodd swyddogion fod gan Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth DPA ar gyfer hyn. Roedd hyn hefyd yn darged craidd i'r Strategaeth Dwristiaeth newydd. Cynigiodd swyddogion ysgrifennu at yr Aelodau i roi mwy o wybodaeth iddynt am hyn.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y cysylltiadau â'r ICC newydd yng Nghasnewydd. Cynghorodd swyddogion y byddai partneriaethau gyda'r Cyngor/For Caerdydd/ICC mewn perthynas â hyrwyddo'r ICC yn rhyngwladol a thîm gwerthu i ddenu digwyddiadau ac ati.

Nododd yr Aelodau'r cynnydd o 26,000 o bobl mewn cyflogaeth a gofynnwyd a oedd mwy o wybodaeth am hyn. Eglurodd swyddogion mai twf poblogaeth oedd hyn yn

bennaf, bod diweithdra wedi bod yn weddol gyson yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Nododd yr Aelodau lwyddiant ysgubol y Lido ym Mhontypridd ac roeddent o'r farn y gellid marchnata'r Pwll Rhyngwladol yn well a bod cyfle gwych i nofio agored yn y Bae. Dywedodd swyddogion fod yna barc dŵr wrthi'n cael ei sefydlu gyda sleidiau, pontynau, byrddau plymio ac ati yn Alexandra Head, a fyddai'n agor o ddiwedd Mehefin tan ddiwedd mis Medi. Byddent yn defnyddio model ansawdd dŵr rhagfynegol a bydd ganddynt drwydded am un flwyddyn. Mae nofio agored ar gael yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Caerdydd, ond gellid marchnata hyn yn fwy effeithiol. Ar hyn o bryd mae dau broject arall yn cael eu trafod, sef y Dociau Sych er mwyn darparu profiad teulu o fath yn y Lido yn yr ardal honno – roedd hyn yn y camau cynnar; mae prif brofiad nofio/sba amgylcheddol yn Alexandra Head yn cael ei gyflawni, bu rhwystrau gyda Llywodraeth Cymru gan mai dyma eu tir.

Nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi derbyn y dangosyddion a restrwyd fel rhan o'r Strategaeth Datblygu Economaidd ond dim ond 1 a restrwyd yn y Cynllun Cyflawni. Dywedodd swyddogion y byddent yn cael eu cynnwys wrth symud ymlaen.

Nododd yr Aelodau nad oedd llawer o heriau wedi'u rhestru yn yr adran Heriau/Cyfleoedd. Eglurodd swyddogion mai'r gyllideb yw'r her fwyaf a diffyg adnoddau staff, ac yna cynhyrchu incwm. Mae'r gwasanaeth wedi'i seilio'n bennaf ar incwm sy'n dod yn ôl i mewn i gynnal y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar economi iach ac ymwelwyr, weithiau roedd angen buddsoddi yn y cynnyrch rydych yn eu gwerthu megis Neuadd Dewi Sant. Roedd hefyd ansicrwydd Brexit i'w ystyried yn ogystal â phwysau demograffig. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet mai'r un oedd yr heriau ers nifer o flynyddoedd, mae'n Gyfarwyddiaeth ddewisol a byddai nifer yr ymwelwyr yn her bob amser. Roedd staff wedi gwneud yn dda i gynyddu incwm ac i gwrdd â'r pwysau a ddaw yn sgil llwyddiant blaenorol.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

8 : DIWEDDARIAD GOHEBU

Nodwyd.

9 : TREFNU RHAGLEN WAITH

Trafododd yr Aelodau ddyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer mis Tachwedd a mis Mawrth, ac mae dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn bythefnos cyn cyfarfodydd y Cabinet felly ystyriwyd y dylid symud ymlaen y cyfarfodydd craffu gan un wythnos.

Nododd yr Aelodau nad oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer Craffu ar y Gyllideb ym mis Chwefror eto ond y byddai hyn yn cael ei gadarnhau cyn gynted â phosibl. Nododd yr Aelodau nad oes cyfarfod wedi'i drefnu ym mis Ebrill 2020, gan fod y Cabinet yn gynnar iawn yn y mis; penderfynodd yr Aelodau aros i weld a fyddai angen cyfarfod a galw un pe bai hynny'n digwydd.

Trafododd yr Aelodau'r dull o amserlennu'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod ac roeddent o'r farn y byddent yn gweithredu yn yr un ffordd â'r llynedd ac yn cyfarfod mewn fforwm cyn y cyfarfod Pwyllgor ffurfiol ym mis Gorffennaf.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n hoffi gweld yr adroddiadau hyn yn ystyried Argyfwng Hinsawdd a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb fel mater o drefn ac yn dangos tystiolaeth o hyn. Gofynnodd i'r Swyddog Craffu anfon e-bost at Aelodau'r Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli i roi gwybod iddynt am hyn fel y gallant fod yn barod cyn pwyllgorau craffu.

10 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Iau 4ydd Gorffennaf 2019 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm